



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Llawlyfr Tiwtor Personol/Blwyddyn

2017/18

Medi 2017

Rôl a Chyfrifoldeb y Tiwtor Personol/Blwyddyn

Mae rôl y tiwtor personol neu'r tiwtor blwyddyn yn cynnwys:

- Cefnogi datblygiad personol a phroffesiynol y myfyriwr, yn ogystal â datblygiad academaidd;
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r myfyriwr;
- Bod yn gyfrwng ychwanegol o gyfathrebu mewnol;
- Cydgysylltu, yn ôl yr angen, gyda staff eraill sydd yn cefnogi'r myfyriwr;
- Darparu cyfrwng arall fel y gall myfyrwyr darparu adborth a chodi ymholiadau.

Gellir priodoli llwyddiant y system tiwtoriaid personol neu diwtoriaid blwyddyn yn y Brifysgol i raddau helaeth i'r berthynas anffurfiol rhagorol sy'n bodoli rhwng staff a myfyrwyr yn ogystal ag ymrwymiad y staff i les y myfyrwyr. Mae'r cod ymarfer ar gyfer tiwtoriaid personol neu blwyddyn yn adlewyrchu'r ethos cefnogol hwn.

Tiwtor Personol neu Blwyddyn – Côd Ymarfer

Gofynnir i diwtoriaid personol neu diwtoriaid blwyddyn:

- Trin pob myfyriwr gyda pharch;
- Trin pob myfyriwr fel unigolyn sydd ag anghenion a dyheadau unigryw;
- Parchu cyfrinachedd;
- Bod yn rhagweithiol ac yn adweithiol er mwyn gwrthsefyll gwahaniaethu, aflonyddu neu bwllo o unrhyw fath;
- Bod yn ymwybodol o egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Gweithredu fel mentor a chefnogwr i fyfyrwyr tiwtoraidd.

Hawliau'r Tiwtor Personol neu Blwyddyn

Mae hawl gan Diwtor Personol neu Blwyddyn ddisgwyl y bydd y Brifysgol:

- Yn rhoi blaenoriaeth uchel i rôl tiwtora personol/blwyddyn;
- Yn sicrhau bod cymorth a chefnogaeth arbenigol ar gael trwy Gwasanaethau Myfyrwyr ar gyfer ymdrin â materion arbennig;
- Yn darparu cyflwyniad i'r rôl ar gyfer pob Tiwtor Personol/Blwyddyn newydd;
- Yn cynnig cyfleoedd datblygiad staff priodol.

Hawliau'r Myfyriwr

Mae hawl gan fyfyrwr ddisgwyl y bydd ei Diwtor/Thiwtor Personol neu Blwyddyn:

- Yn gweithio gyda'r myfyriwr er budd mwyaf y myfyriwr;
- Yn trin pob myfyriwr fel unigolyn sydd ag anghenion a dyheadau unigryw;
- Yn parchu hawl y myfyriwr i gyfrinachedd;
- Yn hyrwyddo twf a datblygiad personol pob myfyriwr;
- Yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd ar unrhyw faterion sy'n effeithio ar fywyd y myfyriwr yn y Brifysgol, gan eu cyfeirio lle bo angen at unigolion eraill, e.e. Cwnselwyr y Brifysgol, Gwasanaethau Myfyrwyr;
- Cydgysylltu gyda Gwasanaethau Myfyrwyr i drefnu cefnogaeth ar gyfer unrhyw anghenion dysgu a nodwyd;
- Adolygu effeithiolrwydd y trefniadau Tiwtorial Personol/Blwyddyn, a rhoi cyfle i'r myfyriwr roi sylwadau ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir;

- Sicrhau ei fod ef/ei bod hi ar gael ar amseroedd dynodedig ar gyfer ymgynghoriad.

Cyfrifoldebau'r Myfyriwr

Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'r myfyrwyr:

- Bod yn weithgar ym mhob agwedd o fywyd academiaidd;
- Bod yn gyfrifol am helpu i greu cymuned addysgol gefnogol lle gall pawb ffynnu;
- Bod yn ystyriol o anghenion cyd-fyfyrwyr, staff a chymdogion yn y gymuned ehangach;
- Talu am wasanaethau yn ôl y gofyn ac yn unol â'r amodau a'r telerau perthnasol.

Hawliau'r Myfyriwr – cyffredinol.

- Mae gan bob myfyriwr hawl i gael cyngor cyfrinachol. Mae Cwnselwyr proffesiynol, tîm Gwasanaethau Myfyrwyr a Chaplaniaid y Brifysgol ar gael i roi cefnogaeth i fyfyrwyr;
- Mae gan bob myfyriwr hawl i gael arweiniad gyrfa a manylion am swyddi a gwaith, astudio pellach, profiad gwaith a gwaith yn ystod gwyliau. Dylai'r myfyrwyr gysylltu â'r staff Gyrfaoedd yn Gwasanaethau Myfyrwyr;
- Mae gan bob myfyriwr hawl i gael cymorth gan y Swyddog Llety i chwilio am lety addas yn y sector preifat yn ogystal â Neuaddau Preswyl y Brifysgol;
- Mae gan bob myfyriwr hawl i gael gwasanaeth arlwy o safon am bris rhesymol. Bydd bwydydd iach ar gael a darperir ar gyfer gofynion dietegol arbennig yn ôl y galw;
- Mae'r Gaplaniaeth yn darparu lle ar gyfer archwilio ac astudio agweddau ffydd. Mae ar gael i bawb o unrhyw ffydd a phobl sydd heb ffydd, ac mae hawl gan bob myfyriwr gysylltu â Chaplaniaid y Brifysgol;
- Mae gan bob myfyriwr hawl i gael cyngor a gwybodaeth yn ymwneud â materion iechyd gan feddyg a/neu staff perthnasol o fewn Gwasanaethau Myfyrwyr;
- Mae gan fyfyrwyr hawl i gael gwybodaeth ac arweiniad o ran cymorth ariannol gan Swyddogion Cyllid Myfyrwyr o fewn Gwasanaethau Myfyrwyr;
- Mae gan fyfyrwyr sydd ag anableddau hawl i gymorth dysgu arbenigol gan Gwasanaethau Myfyrwyr sy'n cydlynu'r ddarpariaeth yma.